# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHIFAU GORLLEWIN MORGANNWG

## A GYNHALIWYD YN CR A/B, CIVIC CENTRE, NEATH DYDD GWENER, 17 MAWRTH 2017 AM 11.00 AM

**YN BRESENNOL**: Mr D B Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Cynrychiolwyr Dinas a Sir Abertawe**

| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| E J King | P M Meara | R V Smith |

**Cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

**Y Cynghorydd**
D W Davies

**Cynrychiolwyr y Sefydliadau Cysylltiedig**

| | |
|---|---|
| Dr L Miskell | Coleg y Brifysgol, Abertawe |
| Sarah Perons | Esgobaeth Llandaf |
| Janet Watkins | Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| K Collis | Archifydd Sirol |
| G Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| D Michael | Pennaeth Cyfreithiol - Castell-nedd Port Talbot |
| W John | Llyfrgellydd Sirol - Castell-nedd Port Talbot |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr K E Marsh, P A Rees ac A Dulley.

12 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Mr D Michael – Personol – Aelod o Gymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd

13 **CROESO.**

Croesawodd y cadeirydd Sarah Perons, y cynrychiolydd newydd o Esgobaeth Llandaf i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor.

14 **DIOLCH.**

Diolchodd y cadeirydd i holl aelodau awdurdod lleol y pwyllgor, yn arbennig y rhai hynny nad oeddent yn sefyll am ailetholiad am eu cyfraniad i waith y pwyllgor dros y blynyddoedd

## 15 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2016 yn gofnod cywir.

## 16 MATERION YN CODI.

Dywedodd y cadeirydd yn dilyn cyfarfod mis Rhagfyr, ei fod wedi ysgrifennu at yr Athro Iwan Davies, Is-ganghellor Prifysgol Abertawe, yn gofyn am eglurder ar unrhyw gynnydd o ran trafodaethau ynghylch Partneriaeth Archifau Gorllewin Cymru. Nododd yn anffodus nid oedd unrhyw beth i adrodd amdano ar hyn o bryd.

Nododd y gallai penodi ymgynghorydd annibynnol i edrych ar leoliadau adeiladau fod yn fuddiol. Efallai bydd arian grant ar gael ar gyfer yr ymarfer hwn.

Dywedodd yr Archifydd Sirol fod yr ymgynghorydd annibynnol blaenorol wedi nodi maint yr adeilad gofynnol, ond bod cwmpas y prosiect wedi newid i gynnwys Llyfrgell Glowyr De Cymru ac eithrio daliadau Gwasanaeth Archifau Sir Gâr.

## 17 CYLLIDEB REFENIW 2017/18.

Cyflwynodd Kim Collis adroddiad y Cyfarwyddwr Lleoedd a oedd yn nodi manylion Cyllideb Refeniw'r Gwasanaeth Archifau ar y Cyd ar gyfer 2017/2018 a'r arian wrth gefn sydd gan y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd, a gyflwynwyd er gwybodaeth yn unig. Dangoswyd y gyllideb wreiddiol fanwl yn Atodiad A.

Nododd yr arbedion/gostyngiad o gyllideb yr Archifau sy'n gysylltiedig ag adleoli ei rôl yn y prosiect Abertawe Gynaliadwy.

Mae'r tabl yn yr adroddiad yn dangos sefyllfa amcangyfrifedig arian wrth gefn yr Archifau ar 31 Mawrth 2017.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 18 ADRODDIAD ARCHIFYDD Y SIR.

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Chwefror 2017.

**Tabl Taliadau 2017/18**
Amlinellodd newidiadau arfaethedig ar gyfer 2017/18 gan nodi'r rhesymeg sy'n gefndir i gynyddu'r ffïoedd.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r newidiadau i'r taliadau.

**Defnydd o'r Gwasanaeth - Ystadegau ar gyfer mis Rhagfyr 2016 i fis Mawrth 2017**

Nododd y defnydd o'r gwasanaeth am y chwarter a nodi'r cefndir a'r rhesymeg y tu ôl i'r ystadegau chwarterol.

Nododd y byddai nifer o gasgliadau'r Gwasanaeth Archifau'n ar wefan Ancestry yn y diwrnodau nesaf. Am y tro cyntaf, bydd y wefan hon yn gallu rhoi ystadegau cywir ar gyfer defnydd digidol o'r casgliadau, lle nad oedd defnyddio cofrestri plwyf Gorllewin Morgannwg yn fesuradwy ar-lein.

Cyfeiriodd at faterion penodol a nodwyd gydag ymweliadau ysgol lle roedd yr ysgol naill ai wedi anghofio bod aelod o staff yr Archifau'n dod neu'n defnyddio'r gwasanaeth fel athro cyflenwi. Mae angen i'r gwasanaeth fonitro a mynd i'r afael â'r materion hyn yn y dyfodol pe bai mwy o broblemau'n codi.

**Allgymorth y Gwasanaeth**

Cyfeiriodd at gyfranogiad y gwasanaeth mewn prosiect Cymru gyfan ar gyfer catalog ar-lein o gasgliadau i'w gosod ar Hwb yr Archifau.

Soniodd am yr arddangosfeydd, y sgyrsiau a'r ymweliadau ysgol a gynhaliwyd yn ystod y chwarter.

**Staff**

Cyfeiriodd at y cyfrifoldebau newydd o ran llywodraethu gwybodaeth, fel a nodwyd yn adroddiad y gyllideb a drafodwyd eisoes.

Nododd fod Rebecca Shileds, Cynorthwy-ydd Derbynfa'r Archifau, wedi'i henwi'n Hyrwyddwr Marchnata Archifau'r Flwyddyn yn y Gwobrau Rhagoriaeth mewn Marchnata ar gyfer Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yng Nghymru mewn seremoni ym mis Chwefror. Roedd y wobr ar gyfer ei gwaith yn hyrwyddo'r Gwasanaeth Archifau drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Estynnwyd llongyfarchiadau'r pwyllgor i Rebecca ar ei gwobr a dywedodd y cadeirydd y byddai'n ysgrifennu ati i'w llongyfarch ar ei llwyddiant.

Nododd ymrwymiad y gwasanaeth yn y Prosiect Cadwraeth Ddigidol Cymru gyfan gan gyfeirio at y mater sy'n ymwneud â chadwraeth tymor hir y cofnodion electronig.

**Cyfarfodydd Proffesiynol a Gweithio Mewn Partneriaeth**

Cyfeiriodd yr Archifydd Sirol at y cyfarfodydd a hyfforddiant proffesiynol y bu staff yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter diwethaf.

**Casgliadau'r Archifau**

Adroddodd yr Archifydd Sirol am y rhestr gynhwysfawr o archifau a dderbyniwyd rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Chwefror 2017.

Dywedodd fod gwaith cadwraeth wedi'i gwblhau ar gasgliad Gwaith Haearn Mynachlog Nedd yn dilyn derbyn grant gwerth £16,600 gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol er Gwarchod Llawysgrifau.

Dywedodd y cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol ynghylch y mater o storio dros dro pe bai ailddatblygu'r Ganolfan Ddinesig yn mynd rhagddo.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.55 am

**CADEIRYDD**